# Canllawiau ar gyfer Ceisiadau am Ddyrchafiad i swydd Darllenydd a Chadair Bersonol

Caiff ymgeiswyr wneud cais am ddyrchafiad ar sail rhagoriaeth mewn ymchwil neu addysgu a dysgu, neu o ran cyfraniad ehangach i'r Brifysgol. P'un bynnag o'r meini prawf uchod y bo ymgeiswyr yn ei ddewis yn *brif sail* dros y cais, rhaid iddynt ddangos hefyd eu gallu a'u heffeithiolrwydd yn **un o'r meysydd eraill neu'r ddau**. A fyddech cystal ag edrych ar y meini prawf meincnodi manwl ar gyfer y meincnodau a'r dangosyddion yn y tri maes.

Dylai ymgeiswyr ddangos eu bod wedi cyfrannu ar draws rhychwant amcanion strategol y Brifysgol, a hynny ar ben y rhagoriaeth y gallant ei nodi yn y maes o'u dewis. Dylent hefyd fod yn ymwybodol bod swyddi athrawon a darllenyddion yn swyddi arweiniol, felly dylai ceisiadau ddangos tystiolaeth o hwyluso, gwella ac ysbrydoli gwaith cydweithwyr - yn ogystal â chyrraedd rhagoriaeth unigol.

## 1 Meini Prawf Craidd ar gyfer Ymgeiswyr am Ddyrchafiad i swydd Darllenydd a Chadair Bersonol

***Staff sy'n ceisio am swydd Darllenydd:***

**Â Phwyslais ar Ymchwil -** Rhaid i staff dangos enw da rhyngwladol addawol yn eu maes ymchwil.

**Â phwyslais ar Addysgu a Dysgu -** Rhaid i staff dangos enw da cyson a sylweddol ac awdurdod neilltuol yn eu pwnc yn y Brifysgol, a meddu ar bresenoldeb addawol yn y sector AU.

**Â phwyslais ar Gyfraniad Ehangach -** Rhaid i staff dangos enw da addawol yng Nghymru, ym Mhrydain ac o bosibl ar lefel ryngwladol.

***Staff sy'n ceisio am Gadair Bersonol:***

**Â Phwyslais ar Ymchwil -** Disgwylir i staff sy'n dymuno cael eu hystyried am ddyrchafiad i swydd Athro fod wedi ennill enw da yn rhyngwladol yn eu maes.

**Â phwyslais ar Addysgu a Dysgu -** Disgwylir i staff fod yn adnabyddus yn eu pwnc a chydag awdurdod neilltuol yn eu pwnc, ac yn meddu ar bresenoldeb cyson yn y sector AU yng Nghymru, Prydain ac o bosibl yn rhyngwladol.

**Â phwyslais ar Gyfraniad Ehangach -** Bydd disgwyl i ymgeiswyr yn y maes hwn ddangos cyfraniadau cyson a sylweddol yng Nghymru, ym Mhrydain ac o bosibl ar lefel rhyngwladol.

## 2 Meini Prawf a Dangosyddion o ran Dyrchafu

Mae'r meincnodau a welir yn y ddogfen 'Meincnodau a Dangosyddion Asesu – Dyrchafu i swydd Darllenydd a Chadair Bersonol' yn amlinellu'r meysydd allweddol y mae'r Pwyllgor Athrawon a Darllenwyr yn ceisio tystiolaeth arnynt. Mae'r meincnodau wedi'u hategu gan y dangosyddion sydd wedi'u cynllunio i beidio â bod yn hollgynhwysol nac yn rhagnodol ond, yn hytrach, yn enghreifftiau o'r dystiolaeth y disgwylir iddi gael ei hamlinellu mewn cais: *ni ddisgwylir i ymgeiswyr ateb yr holl feini prawf ym mhob maes.*

## 3 Cyfleoedd Cyfartal

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i hybu cyfle cyfartal yn ei holl weithgareddau ac mae'n anelu at greu amgylchedd i weithio, dysgu, ymchwilio ac addysgu ynddo sy'n rhydd rhag gwahaniaethu a thriniaeth annheg. Bwriedir i'r drefn ar gyfer dyrchafu fod yn deg, yn dryloyw ac yn cyd-fynd â pholisïau cyfleoedd cyfartal y Brifysgol.

**4 Y Drefn Ddyrchafu**

Dylai ymgeiswyr sy'n gwneud cais am ddyrchafiad i swydd Darllenydd a Chadair Bersonol:

- Lenwi'r 'Cais CV am Ddyrchafiad i swydd Darllenydd a Chadair Bersonol' a'i anfon at Bennaeth yr Ysgol a Deon y Coleg. Dylai ymgeiswyr edrych ar y 'Canllawiau CV am Ddyrchafiad i swydd Darllenydd a Chadair Bersonol' ac ni ddylent gyflwyno unrhyw CV arall ac eithrio'r ffurflen gais CV.

- Fel rheol, dylid gwneud ceisiadau trwy Bennaeth yr Ysgol a Deon y Coleg. Bydd Pennaeth yr Ysgol/ Deon y Coleg yn gwirio cywirdeb adrannau ffeithiol y CV ac yn rhoi gwerthusiad ysgrifenedig manwl o'r cais yn erbyn y Meincnodau a Dangosyddion Asesu.

- Dylid cyflwyno ceisiadau'n electronig (naill ai gyda llofnod electronig neu PDF) a gellir eu cyflwyno ar unrhyw adeg. Gellir cael y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau i’w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor o swyddfa’r Is-Ganghellor.

- Caiff ceisiadau eu hystyried gan y Pwyllgor Athrawon a Darllenwyr, a gadeirir gan yr Is-Ganghellor. Os yw’r Pwyllgor yn fodlon y ceir achos *prima facie*, ceisir asesiadau annibynnol ar y cais.

- Bydd Pennaeth yr Ysgol a Deon y Coleg yn awgrymu enwau canolwyr posibl neu aseswyr allanol.

**5 Canllawiau i Benaethiaid Ysgolion a Deoniaid Colegau**

Fel rheol, dylid gwneud cais trwy Benaethiaid Ysgolion a Deoniaid Colegau. Gofynnir i Benaethiaid Ysgolion a Deoniaid Colegau ill dau roi gwerthusiad ysgrifenedig manwl o’r cais yn erbyn y Meincnodau yn y 'Meincnodau a Dangosyddion Asesu ar gyfer Dyrchafu i swydd Darllenydd a Chadair Bersonol'.

Bydd Pennaeth yr Ysgol a Deon y Coleg yn rhoi llythyr yr un, yn amlinellu eu hasesiad o gryfderau a gwendidau’r cais. Gallant gyflwyno llythyr ar y cyd os dymunant.

Fodd bynnag, os cais yw hwn am ddyrchafiad i Gadair Bersonol, a Phennaeth yr Ysgol heb ddal Cadair, dylai Deon y Coleg drefnu, yn hytrach, i Athro addas yn i’r Ysgol neu’r Coleg baratoi asesiad o’r achos. Os mai Pennaeth yr Ysgol yw’r ymgeisydd, bydd angen llythyr gan Ddeon y Coleg. Gellir hefyd gysylltu ag uwch academydd arall oddi mewn i’r Brifysgol, yn ôl doethineb yr Is-Ganghellor.

**6 Enwebu aseswyr allanol / canolwyr**

Os yw’r Pwyllgor yn fodlon y ceir achos *prima facie*, ceisir asesiadau annibynnol ar y cais, oddi wrth o leiaf bedwar canolwr. Dylai tri o'r rhain fod yn unigolion allanol a fydd, fel rheol, yn athrawon yn yr un pwnc/ maes neu mewn pwnc/ maes perthnasol.

Dylai’r rhain fod yn ysgolheigion a berchir ar lefel gadeiriol lawn (neu gyfatebol), heb hanes o gydweithredu’n agos na chyhoeddi â’r ymgeisydd. Fel rheol, dylid enwebu o leiaf un aseswr rhyngwladol.

Y Pwyllgor yn y pen draw fydd yn pennu enwau'r aseswyr allanol y gofynnir am eu sylwadau.

Dylai’r cais felly gynnwys yr eitemau canlynol:

- Y 'Cais CV am Ddyrchafiad i swydd Darllenydd a Chadair Bersonol', wedi'i lenwi.
- Yr asesiad(au) gan Bennaeth yr Ysgol berthnasol a Deon y Coleg.
- Enwau o leiaf pedwar aseswr allanol - a ddarperir gan Bennaeth yr Ysgol a Deon y Coleg.

Dylid anfon yr eitemau hyn ar ffurf electronig at Ysgrifennydd Pwyllgor yr Athrawon a’r Darllenwyr. Am fwy o gyfarwyddyd, cysylltwch â Swyddfa’r Is-Ganghellor.

**7 Sylwadau i Ymgeiswyr**

Mewn achosion lle gwrthodwyd y cais, rhoddir sylwadau ffurfiol i'r ymgeisydd gan aelod o'r Panel Athrawon a Darllenwyr, gan nodi'r diffygion. Yn dilyn adborth, gall ymgeiswyr ofyn i'w cais gael ei ailystyried, os daw'n amlwg bod deunydd hanfodol wedi'i hepgor, neu os credir y bu gwendid yn y broses.